Thomas Jones, 1810–49
Cenhadwr cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn India

Yr oedd Thomas Jones yn gwbl allweddol ym mhenderfyniad y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru i sefydlu eu cenhadaeth dramor eu hunain ym 1840. Ganwyd ef ar 24 Ionawr 1810, yn fab i Edward a Mary Jones, Tan-y-ffridd, Llangynyw, a gweithiodd fel saer troliau ac yna fel melinydd ym melin Llifior, Aberriw. Dechreuodd bregethu tua 1835 ac ef oedd un o fyfyrwyr cyntaf Coleg y Bala ym 1837. Rhoddodd ei fryd ar fod yn genhadwr yn India ac fe drafodwyd ei gais yng Nghymdeithasfa'r Bala 1839. Penderfynwyd ei fod yn ymgeisydd cymwys a gofynnwyd i'r Parchedigion Lewis Edwards a David Charles gyflwyno'i enw i Gymdeithas Genhadol Llundain. Gwahoddwyd ef i ymddangos gerbron panel y gymdeithas er mwyn tafoli ei addasrwydd.

Derbyniwyd ef i'r gwaith ond penderfynwyd ar sail cyngor meddygol ei anfon i Affrica yn hytrach nag India. Nid oedd Thomas Jones yn fodlon ar hyn ac apeliodd am gael ei anfon i India, ond gwrthodwyd ei apêl a dywedwyd wrtho yn ddiflewyn-ar-dafod pe na bai'n mynd i Affrica ni fyddent yn ei anfon i unrhyw le. Fe'i hordeiniwyd i'r gwaith ar 1 Ionawr 1840 yng Nghyfarfod Misol Sir Feirionnydd yn y Bala, ond yr oedd yn parhau i deimlo'n anfoddog ynglŷn â mynd i Affrica, felly cafodd gyngor a llythyrau meddyg gan Dr Serph, y Trallwng, a Dr Carson, Lerpwl, yn dweud nad oedd rheswm meddygol dros ei atal rhag mynd i India. Cyflwynodd y dystiolaeth i'r Parchedigion J. Arundel a J. Tidman, ysgrifenyddion Cymdeithas Genhadol Llundain a'r pwyllgor llywio. Ond nid oedd dim yn tycio a chytunwyd bod cysylltiad Thomas Jones â'r gymdeithas i gael ei derfynu.

Creodd hyn gynnwrf yn rhengoedd arweinyddion y Methodistiaid Calfinaidd ac aethant ati yn ddiymdroi i sefydlu eu cymdeithas genhadol eu hunain. Galwyd cyfarfod brys yn festri capel Rose Place, Lerpwl, ar 31 Ionawr 1840 o dan gadeiryddiaeth y Parch. Henry Rees a phenderfynwyd yn y fan a'r lle eu bod yn

ymgorffori yn Gymdeithas Genhadol Dramor. Cenhadwr cyntaf y corff newydd hwn oedd Thomas Jones, a chynhaliwyd ei gyfarfod ymadawol yng nghapel Rose Place, Lerpwl, ym mis Tachwedd cyn hwylio ar y *Jamaica* ar y 25ain. Cyraeddasant Calcutta ar 23 Ebrill 1841 ar ôl mordaith o bum mis. Trannoeth y glanio rhoddodd ei wraig enedigaeth ond bu farw'r baban yr un diwrnod. Dyddiau caled oedd y rhai cyntaf hynny i Thomas Jones, yn bennaf oherwydd gwendid ei briod, a'r glawogydd trymion.

Penderfynodd Thomas Jones ymsefydlu ym mhentref Cherrapoonjee lle'r oedd gorsaf filwrol y llywodraeth, ac ymroddodd i ddysgu'r iaith frodorol Khasi trwy gymorth dau o'r brodorion oedd â rhyw grap ar y Saesneg. Wedi wyth mis gallai gyfathrebu'n gymharol rwydd yn yr iaith a thyrrai'r bobl i weld y dyn gwyn oedd wedi dysgu eu hiaith mor rhugl. Ymddengys mai ef oedd y cyntaf i roi'r Khasi ar glawr a chyhoeddodd werslyfrau a gynhwysai'r wyddor a chyfieithiadau o *Rhodd Mam* ac Efengyl Mathew. Adeiladwyd ysgolion ym mhentrefi Mawsmai, Mawmluh a Cherra a noddwyd gan yr eglwysi yng Nghymru. Bu farw priod Thomas Jones ym 1845, ac ailbriododd, ond nid oedd yn gallu cyd-dynnu â'r cenhadon eraill. Ymddengys i'w sêl genhadol bylu gan iddo adael y gwaith yn ddirybudd a dechrau ffermio yn Pomreng. Ymhen tipyn bu rhaid iddo ffoi oddi yno i Galcutta oherwydd iddo gael ei gyhuddo o dwyllo a gorthrymu brodorion. Yno bu farw ar 16 Medi 1849, a chladdwyd ef yn y fynwent Albanaidd.